

Cystadleuaeth Rhif 395. Rhyddiaith BI7 (D) Y Trip

Beirniad – Carys Lake

Diolch, blwyddyn 7, am eich storïau.

Mi ges i naw stori ddiddorol i'w darllen ac mi ges i fynd ar drip i bob math o leoedd fel i gêm bêl droed yn Anfield a'r diwrnod anhygoel hwnnw pan gafodd *'Pêl droediwr Penydarren'* ei hun chwarae yn y gêm a sgorio gôl; i Gallanog mewn breuddwyd gyda *'Ci Glas'*, i'r theatr ac i'r Senedd yng Nghaerdydd gyda *'Cadwaladr'*, lle bu'n ymarfer siarad Cymraeg; i Eryri ac i fyny Aran Fawddwy gyda *'Haf'* ac i Borneo bell, llawn rhyfeddodau drwy ddyddiadur *'Gwanwyn'*.

Mwynheais i'r storïau lle roedd yn rhaid i mi ddyfalu ble roeddwn yn mynd ar y trip; a stori gan *Mwnici Melyn* wedyn oedd yn stori drist ond gyda hanes annwyl carreg lwcus mamgu yn ddiweddglo hyfryd iddi. Roedd stori *'Merch Dowlais'* yn ddiddorol ac yn stori antur gyffrous ynddi hi ei hun, a'r esboniad ar y diwedd mai o Disney Florida roedd hi'n ei hysgrifennu yn glyfar iawn!

Aeth *'Seren Wib'* â ni i'r traeth, a hithau'n nos ac yn "dywyll fel bol buwch" mewn stori antur, gyffrous. Mae'n defnyddio deilalog yn effeithiol, yn cynnwys idiomaau yn y stori ac yn atalnodi yn gywir.

Mae *'Pog'*, hefyd, wedi ysgrifennu stori antur ddiddorol. Mae'n dal sylw'r darllenydd yn syth gyda'r frawddeg gyntaf. Mwynheais stori ddyfeisgar *'Pog'*, ac mae ynddi ddeialog, idiomaau, a dechreuad a diweddglo slic ac effeithiol.

Melys moes mwy ydy fy neges i! Ysgrifennwch fwy o storïau *bob un* ohonoch chi.

Da iawn chi.